**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 24 Mawrth 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | K M Griffiths |
| Y V Jardine | S M Jones | J W Jones |
| W G Lewis | H M Morris | G J Tanner |
| D W W Thomas | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet - Cefnogi Cymunedau |
| Elliott King | Aelod y Cabinet – Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Damian Rees | Diogelu ac Ansawdd Perfformiad |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |
| Kelli Richards | Prif Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Megan Stevens | Arweinydd Arfer (Datblygiad Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M Durke a/ac E T Kirchner

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Gofnodion cyfarfod Panel y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd ar 15 Chwefror 2021.

4 **Cwestiynau Gan y Cyhoedd**

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC): Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Roedd Louise Gibbard, Aelod Cabinet dros Gefnogi Cymunedau, Jane Whitmore, Arweinydd Strategol Partneriaeth a Chomisiynu, Kelli Richards, Prif Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Megan Stevens, Arweinydd Arfer (Datblygiad Partneriaeth VAWDASV) yn bresennol i friffio'r panel ar yr eitem hon.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae hyn yn destun pryder i'r Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Mae amrywiaeth o waith yn mynd rhagddo yn y maes hwn er gwaethaf y pandemig ac mae dull traws-gyngor yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Trechu Tlodi a sefydliadau'r Trydydd Sector.
- Daeth pum argymhelliad cyffredinol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyngor wedi bodloni pob un o'r pum argymhelliad. Cyfeiriwyd at Ganolfan Cam-drin Domestig Abertawe hefyd yn yr adroddiad fel ffordd arloesol o weithio.
- Mae pwyslais ar ddatblygu gwaith gyda throseddwyr.
- Mae'r timau i gyd yn eistedd o dan un portffolio yn y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd, gan ei wneud yn broses lawer mwy esmwyth.
- Mae'r adroddiad yn sôn am fwlch ariannu ar gyfer gwaith atal. Rydym wedi derbyn arian ychwanegol ond mae bwlch o hyd. Mae'r cyllid yn gadarnhaol ond mae'n dod â risg gan fod y gwaith yn cael ei ariannu gan grantiau sy'n ansicr wrth symud ymlaen. Caiff y mater hwn ei godi gyda Llywodraeth Cymru yn barhaus, gan fod angen ei brif ffrydio.
- Holodd y panel a oes unrhyw beth y gall ei wneud i helpu gyda'r sefyllfa hon. Bydd swyddogion yn dod yn ôl gydag unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gall craffu helpu.
- Mae llawer o gymorth ar gael i bawb y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Ewch ar-lein i wefan y cyngor www.abertawe.gov.uk/sgwrsfot os oes angen help arnoch neu os ydych yn poeni am unrhyw un arall.
- Gofynnodd y panel am ragor o wybodaeth am atal a gwaith sy'n cael ei wneud gyda phlant yn benodol, o ran eu haddysgu yn ogystal â'u gwneud yn ymwybodol o gymorth. Esboniwyd bod y Ganolfan Cam-drin Domestig yn ataliol ond ei bod yn eilradd. Y dull newydd o weithredu yw atal sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru'n annog ymagwedd 'ysgol gyfan'. Mae wedi'i hymgorffori yng nghwricwlwm newydd yr ysgol. Teimlai'r panel fod eu rôl fel llywodraethwr mewn ysgolion yn bwysig iawn a gofynnodd a oedd modd trefnu hyfforddiant i bob cynghorydd. Cefnogodd Aelod y Cabinet yr awgrym hwn a chytunodd, ynghyd â swyddogion, i roi hyn ar waith.
- Cododd y panel y mater ynghylch dynion sy'n dioddef cam-drin domestig, a gofynnodd a ydym yn ei gwneud yr un mor hawdd iddyn nhw gael cymorth. Esboniwyd bod gan ddynion fynediad at wasanaethau hefyd. Mae data'n

dangos bod y mwyafrif yn fenywod ond mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu ar gyfer dynion yn ddiweddar.
- Mae swyddogion yn credu nad oes llawer o ddioddefwyr gwrywaidd yn adrodd am achosion oherwydd ego a stigma. Mae'n debyg bod y niferoedd a wyddom yn llawer llai i ddynion a menywod.
- Cafodd y panel ei synnu'n fawr i glywed bod trais domestig yn effeithio ar 4,300 o blant yn Abertawe.

Camau Gweithredu:
- Gwybodaeth i'w darparu ar sut y gall y panel helpu i lobïo Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid grant.
- Hyfforddiant i'w roi ar waith i bob cynghorydd fel llywodraethwyr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth.

## 6 **Monitro Perfformiad**

Cyflwynodd Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wybodaeth i'r panel am yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer mis Ionawr 2021 a dywedodd wrth y panel fod perfformiad cyffredinol ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn dda iawn. Y prif uchafbwyntiau: Ceir atgyfeiriadau cynyddol drwy Ganolfannau Cymorth Cynnar. Mae llwythi achosion cyfartalog wedi gostwng ond maent yn fwy cymhleth, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae amserlenni asesu wedi gwella. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi lleihau ychydig. Mae'r Strategaeth Lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal yn gweithio'n dda yn Abertawe. Roedd sefydlogrwydd lleoliadau'n gryf iawn yn ystod y pandemig oherwydd cefnogaeth dda a ddarperir gan ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar daith wella; mae cynllun wedi'i dargedu ar waith ac ym mis Ionawr, cyflawnwyd yr holl asesiadau yr oedd yn rhaid eu cyflawni o fewn 20 niwrnod. Mae gan bob plentyn a'r rhai sy'n gadael gofal gynllun llwybr.

Pwyntiau i'w trafod:
- Gostyngodd nifer y plant y mae arnynt angen gofal a chymorth yn sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd gostyngiad o ganlyniad i gael gwared ar blant nad oes angen iddynt fod yno neu oherwydd eu bod yn camu i lawr.
- Mae niferoedd Signs of Safety yn isel, yn rhannol oherwydd y pandemig ond hefyd mae problem wrth gofnodi ar system PARIS. Sicrhawyd y panel bod gwaith Signs of Safety yn digwydd a bydd yn llawer mwy syml i'w gofnodi pan fydd system WCCIS newydd yn mynd yn fyw ar 12 Ebrill 2021.
- Trafodwyd sut mae'r berthynas rhwng y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac ysgolion yn mynd ac a yw'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael y lefel o gydweithredu y mae ei hangen arnynt er mwyn nodi unrhyw broblemau. Eglurwyd bod perthynas waith gadarnhaol gyda rhai ysgolion ac yn strategol ond gallent wneud mwy. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol gydag Addysg ac mae ysgolion yn ymgysylltu â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar 'Drothwy'.
- Mae'r ffigurau goruchwylio ar gyfer Pod 1 Townhill yn eithaf isel gan fod problem cofnodi ar y system ac mae gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gofnodion nad ydynt wedi'u lanlwytho eto.

7 **Adroddiad Blynyddol yr Uned Diogelu ac Ansawdd**

Bu Damian Rees, Prif Swyddog Diogelu Ansawdd Perfformiad yn briffio'r panel ar yr Adroddiad Blynyddol, a oedd yn cynnwys trosolwg o'r Gwasanaeth, Cynadleddau Amddiffyn Plant ac Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae addysg yn ymwneud â gwella’r sefyllfa mewn perthynas ag achosion amddiffyn plant ac mae eu presenoldeb yn dda iawn. Roedd y panel yn falch o glywed hyn.
- O ran eiriolaeth, mae'r panel yn falch o weld cynnydd yn nifer y plant sy'n gwybod beth yw ystyr 'eiriolaeth'.
- Nid yw swyddogion yn gwybod pam mai dim ond nifer fach o blant yn unig sydd am fanteisio ar gynnig eiriolaeth. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen iddynt edrych arno. Credant fod y nifer sy'n manteisio ar y cynnig yn debyg mewn rhanbarthau eraill. Mae swyddogion yn awyddus i glywed gan y plant eu hunain y rheswm nad ydynt yn dewis derbyn gwasanaeth eiriolaeth.
- Holodd y panel a yw eiriolwr yn berson cyson. Cadarnhawyd dylai fod yr un person gyda phlentyn drwy'r cyfnod cyfan.
- Mae adborth gan bobl ifanc sydd wedi defnyddio eiriolaeth wedi bod yn gadarnhaol.
- Cadarnhaodd swyddogion fod gwaith y mae angen ei wneud o hyd ynghylch Cynlluniau Addysg Personol (PEPs). Nid y gweithiwr cymdeithasol yn unig sy'n ymwneud â hyn; Mae’n rhaid iddynt weithio gyda'r ysgol. Mae angen gwella cysondeb.
- Holodd y Panel a oedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn ymwneud ag Asesiadau Iechyd. Esboniwyd nad yw wedi'i ymgorffori yn y cynlluniau hyn. Fodd bynnag, maent yn cyfarfod yn rheolaidd â CAMHS ac maent yn monitro bod gan blant y mae'r cyngor yn gofalu amdanynt fynediad at y gwasanaethau hyn.
- Cadarnhaodd Aelod o'r Cabinet na fydd angen cymorth sylfaenol y mae CAMHS yn ei ddarparu ar bob plentyn ifanc. Trefnwyd trafodaeth ynghylch y diweddaraf am CAMHS yn ystod panel y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ym mis Mai.
- Cadarnhaodd swyddogion y bu cynnydd i 60% mewn cwblhau gwaith hanes bywyd ond mae angen ei wella mwy. Mae'n flaenoriaeth yn y cynllun gweithredu. Mae rhai problemau o ran cofnodi ar y system ond dylai WCCIS fynd i'r afael â'r materion hyn.
- Holodd y panel a yw'r Gyfarwyddiaeth yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael gan Barnardos a BAYS+. Esboniwyd bod y Gyfarwyddiaeth yn gwneud darn o waith i edrych ar y gwasanaeth hwn a gall wneud rhai newidiadau. Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r panel ynghylch hyn yn y dyfodol.
- Teimlai Aelod y Cabinet ei bod yn ddefnyddiol i'r tîm craffu weld yr Adroddiad Blynyddol hwn a hoffai ei gyflwyno i'r panel eto yn y dyfodol.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu 'Strategaeth a Chynllun gweithredu Pobl Ifanc' at raglen waith yn y dyfodol ar ôl mis Medi 2021.
- Ychwanegu 'Adroddiad Blynyddol yr Uned Ansawdd Diogelu 2020-21' at raglen waith yn y dyfodol.

8 **Amserlen y Rhaglen Waith ar gyfer 2020-21**

Ystyriwyd y rhaglen waith gan y panel.

Symudwyd dyddiad y cyfarfod nesaf o 5 Mai i 25 Mai oherwydd Etholiadau'r Senedd.

9 **Llythyrau**

Cafodd llythyrau eu derbyn a'u hystyried gan y panel.

The meeting ended at 5.50 pm